ADRODDIAD SENEDD YR YSGOL - HYDREF 2023

SCHOOL PARLIAMENT REPORT - AUTUMN 2023



LLAIS LLANTRISANT *LLANTRISANT VOICE*

Mae aelodau'r pwyllgor yn cwrdd yn fisol er mwyn dewis Hawl y Mis. Hawl y Mis ar gyfer mis Tachwedd yw Hawl #12 - "Mae gen i hawl i gael gwrandawiad, ac i gael fy nghymryd o ddifri". Tasg arall i aelodau'r pwyllgor yw i agor y blychau sylwadau sydd i'w gweld o gwmpas yr ysgol. Rydym yn casglu unrhyw sylwadau sydd wedi'u postio gan ein ffrindiau a'u trafod i weld sut allai'r pwyllgor helpu. Rydym wedi penderfynu y byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod amseroedd chwarae er mwyn i'n ffrindiau godi unrhyw bryderon / syniadau gyda ni.

The members of the committee meet monthly in order to choose the Right of the Month. The Right of the Month for November is Right #12 - "I have the right to be listened to and taken seriously". Another task for the committee members is to open the comment boxes that can be seen around the school. We collect any comments our friends have posted in these boxes and discuss them to see how the committee could help. We have decided that we shall hold regular 'drop-in sessions' during play times for our friends to raise any concerns / ideas with us.



DINASYDDION DOETH *WISE CITIZENS*

Eleni, mae'r Dinasyddion Doeth yn mynd i gymryd rhan yng ngwobr Eco Rhondda Cynon Taf. Mae'n wobr newydd ac yn gyfle i'r Dinasyddion Doeth i weithio ar gyweithiau Eco amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mi fydd hyn yn adeiladu ar lwyddiant yr ysgol wrth adnewyddu'r ail faner platinwm yn ddiweddar. Mi fydd y pwyllgor yn gwerthu llyfrnodau er mwyn codi arian ar gyfer elusen Plant mewn angen hefyd. Yn ogystal â hyn, mae pwyllgor y Dinasyddion Doeth yn parhau i gasglu'r ailgylchu wythnosol o amgylch yr ysgol.

This year, the Wise Citizens are going to take part in the Rhondda Cynon Taf Eco award. It is a new award and an opportunity for the Wise Citizens to work on various Eco projects during the year. This will build on the school's recent success in renewing the second platinum flag. The committee will be selling bookmarks to raise money for the Children in Need charity as well. In addition to this, the Wise Citizens committee continues to collect the weekly recycling around the school.



Y CRIW CYMWYNASGAR *THE HELPING HANDS*

Tymor yma, buodd plant y Criw Cymwynasgar yn awyddus i helpu'r gymuned leol. Trefnwyd casgliad ymysg ein rhieni a chymuned yr ysgol tuag at Fanc Bwyd Taf Elai.
Yn ogystal â hyn trafodon ni sut mae plant yn treulio amser cinio ar yr iard. Dwedodd y plant eu bod nhw'n hoffi chwarae gemau. Buodd y plant hefyd yn awyddus i chwarae a chyflwyno gemau i blant iau'r ysgol. Penderfynwyd bod plant Blwyddyn 5 a 6 am chwarae gemau gyda phlant y Cyfnod Sylfaen. Mrs Burrows bydd yn hyfforddi'r plant sut i chwarae gemau buarth. Mae plant Blwyddyn 5 a 6 y Criw Cymraeg am ymuno gyda ni hefyd er mwyn helpu hybu'r iaith Gymraeg.

The Helping Hands Committee this term was eager to help the local community. Members arranged a food collection for the Taff Ely Foodbank. We also discussed how children spend lunch time. The children informed me that they like to play games and were keen to play games with the younger children. We decided that children from years 5 and 6 would learn to play games with Foundation Phase children. Mrs Burrows will teach the children on how to play yard games. Children of Year 5 and 6 from the Criw Cymraeg will also join us in order to promote and develop the Welsh language.

YSGOLION IACH *HEALTHY SCHOOLS*

Wedi cyfarfod aelodau newydd o'r Pwyllgor Ysgolion Iach, cytunwyd i ysgrifennu llythyr yn annog ac atgoffa rhieni ynghylch darparu byrbrydau iachus yn ystod amser chwarae. Hefyd penderfynwyd creu posteri i gynnig cyfarwyddyd ynghylch beth sy'n addas i gynnwys ym mocsys brechdanau y plant. Byddwn yn gosod y posteri o amgylch yr ysgol. Yn ogystal â hyn mae'r pwyllgor wedi cynnal gwasanaeth Cyfnod Allweddol 2 y tymor yma, ar bwysigrwydd bwyta'n iach. Trafododd y disgyblion eu bod yn awyddus i gymryd rhan yn Wythnos Bwyta'n Iach ym Mehefin 2024 ac i drefnu Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ym mis Mai 2024. Hefyd cynnigodd aelodau hŷn y pwyllgor i gynnal clwb ffitrwydd amser cinio ar gyfer eu cyfoedion yn ystod tymor yr Haf.

Having met new members of the Healthy Schools Committee, we agreed to write a letter encouraging and reminding parents about providing healthy snacks during playtime. It was also decided to create posters to offer guidance on what is suitable to include in the children's lunch boxes. We will place the posters around the school. In addition to this the committee has held a Key Stage 2 assembly this term, on the importance of healthy eating. The pupils discussed that they were keen to take part in Healthy Eating Week in June 2024 and to organize a Mental Health Awareness Week in May 2024. The older members of the committee also proposed to hold a lunchtime fitness club for their peers during the summer term.



Y CRIW DIGIDOL *THE DIGITAL CREW*

Ers eu penodi ar ddechrau'r tymor, mae'r Criw Digidol wedi cwrdd i drafod eu gweledigaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer yr ysgol. Yn dilyn hynny, penderfynwyd y dylai'r Criw Digidol ymestyn ei wasanaethau i gynnwys yr holl disgyblion a staff, gan gynnig cymorth ac arweiniad holl materion TGCh. Yn ogystal, mae'r tîm yn mynegi awydd cryf i sefydlu clwb digidol amser cinio o fewn cyfyngiadau'r Hwb gyfrifiadurol, lle bydd gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Minecraft, codio, iMovie, a Garageband, yn cael eu dilyn. Bydd y criw yn creu posteri i godi ymwybyddiaeth o fodolaeth y clwb. Mae'r criw hefyd yn dymuno cyflwyno i'r ysgol gyfan i drafod dychwelyd Chromebooks a gliniaduron yn briodol ac yn gyfrifol i'w trolïau cywir.

Since their appointment at the commencement of the term, the Digital Crew has convened to deliberate upon their overarching Information Technology vision for the school. Subsequently, it was determined that the Digital Crew should extend its services to encompass all pupils and staff members, offering assistance and guidance in Information and Communication Technology (ICT). In addition, the team expresses a strong desire to set up a lunchtime digital club within the confines of the computer Hub, wherein various activities, including but not limited to Minecraft, coding, iMovie, and Garageband, will be pursued. The pupils also wish to formally address the entire school during an upcoming school assembly to discuss the proper and responsible return of Chromebooks and laptops to their designated trolleys.



Y CRIW CYMRAEG *THE WELSH CREW*

Mae'r Criw Cymraeg yn cwrdd yn gyson i drafod sut gallan nhw hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg nid yn unig o fewn yr ysgol ond hefyd o fewn y gymuned. Cynhelir cystadleuaeth bob mis i rieni sydd yn dysgu Cymraeg ar yr ap Duolingo. Mae'r rhieni yn ebsotio sgrinlun o'u sgôr ar ddechrau a diwedd y mis ac yna mae aelodau Blwyddyn 6 yn cyfrifo'r gwahaniaeth. Mae'r rhai sydd yn dod yn gyntaf, ail a thrydydd yn derbyn gwobr o gynnyrch Cymreig megis bara brith, pice ar y maen neu waffles Tregroes. Mae'r Criw hefyd yn helpu dewis Trac yr Wythnos gan geisio sicrhau bod cymysgedd o ganeuon newydd yn ogystal â rhai rhai o'r hen ffefrynnau. Tasgau nesaf y criw yw i greu fideos o ymadroddion Cymraeg i helpu'r rhieni a'r gymuned ddysgu'r iaith a datblygu gemau i'r plant lleiaf eu chwarae gyda'i gilydd amser egwyl.

The Criw Cymraeg meet regularly to discuss how they can promote the Welsh language not only within the school but also within the community. A competition is held every month for parents who are learning Welsh on the Duolingo app. The parents take a screenshot of their score at the beginning and end of the month and then the Year 6 members calculate the difference. Those who come first, second and third receive a prize of Welsh products such as bara brith, Welsh cakes or Tregroes waffles. The Criw Cymraeg also help choose the Track of the Week, trying to ensure that there is a mix of new songs as well as some of the old favourites. The crew's next tasks are to create videos of Welsh phrases to help the parents and the community learn the language and develop games for the youngest pupils to play during break times on the yard.